



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Name:	<i>Aliya Iftikhar – Policy Officer</i>
Organisation:	<i>Welsh Women's Aid</i>
Email address:	<i>Aliyaiftikhar@welshwomensaid.org.uk</i>
Telephone number:	<i>02920 541 551</i>
Address:	<i>Pendragon House, Caxton Place, Pentwyn, Cardiff CF23 8XE</i>
These are the views of:	<i>Welsh Women's Aid (Third Sector) - the national charity in Wales working to end domestic abuse and all forms of violence against women.</i>

1. Cyn gofal: Lleihau nifer y plant yn y system ofal yn ddiogel

Amlinellwch **uchafswm o dair** prif flaenoriaeth ar gyfer diwygio gwasanaethau yn radical er mwyn lleihau nifer y plant yn y system ofal yn ddiogel:

Blaenoriaeth 1: **Ymrwymiad i ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal, er mwyn nodi anghenion y plentyn ar y cyfle cyntaf.**

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn credu y dylai fod ymrwymiad i ganolbwyntio'n gryf ar ymyrraeth gynnar ac atal, i gefnogi goroeswyr VAWDASV naill ai sydd â phlant neu sy'n blant eu hunain. Mae manteision diddiwedd i hyn, un ohonynt yw gostyngiad posibl yn nifer y plant sy'n dod i mewn i'r system ofal. Mae'n bwysig ein bod ni i gyd yn cydnabod maint yr effaith y gall ymuno â'r system ofal ei chael ar blant a phobl ifanc, a'n bod bob amser yn cydweithio tuag at liniaru a chyfyngu ar unrhyw drawma. Mae yna lawer o wahanol gamau ym mywyd plentyn lle mae cyfleoedd i ymyrryd, ac mae'n rhaid i gymdeithas gyfan gydnabod fod yna wahanol sefydliadau - yn amrywio o iechyd, addysg, sefydliadau yn y gymuned, sydd â'r mynediad a'r adnoddau ar y cyd i gefnogi plant.

Fe wnaeth **Ymchwil y Senedd** ar Blant â Phrofiad o Ofal ganfod bod dros 7,080 o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, sy'n gynydd o dros 20% ers 2013. Mae'r **NSPCC** hefyd wedi amlygu bod dros 245,000 o atgyfeiriadau wedi cael eu gwneud i'r gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer cam-drin domestig yn 2020/2021. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn seiliedig ar bwysigrwydd atal ac ymyrryd yn gynnar; fodd bynnag, mae rhai gwasanaethau arbenigol yn credu nad oes digon yn cael ei wneud i ymyriadau ddigwydd mor gynnar â phosibl, pan ddaw plant yn dystion ac yn oroeswyr cam-drin domestig a/neu drais arall. Mae gwasanaethau arbenigol yn darparu gwahanol lefelau o gymorth i ferched a'u plant, sy'n oroeswyr cam-drin domestig, cam-drin rhywiol neu drais. Ar gyfartaledd, roedd tua 35 o blant a oedd yn

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551
info@welshwomensaid.org.uk | www.welshwomensaid.org.uk

Welsh Women's Aid is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

byw mewn lloches, yn ein gwasanaethau i aelodau, yn ystod 2021/22 ar gofrestr amddiffyn plant, sy'n golygu eu bod wedi gorfod ffoi o'u cartref oherwydd y risg ddifrifol o drais a niwed.

Mae WWA yn credu bod angen canolbwyntio ar ymyrraeth hyd yn oed yn gynharach, fel bod plant yn cael eu cefnogi cyn cyrraedd gwasanaeth VAWDASV arbenigol ac ymyrraeth gwasanaethau cymdeithasol. Mae ymyrraeth gynnar ac atal yn hanfodol er mwyn nodi sefyllfa niweidiol y gall plentyn fod ynddi, mor brydlon â phosibl. Dylid blaenoriaethu'r ateb gorau i'r plentyn a lle bo'n bosibl ac yn ddiogel, dylai'r plentyn barhau i fyw gyda'r ffigur rhiant nad yw'n ymosodol.

Mae rhai gwasanaethau arbenigol hefyd wedi nodi bod ymyriadau, fel Teuluoedd yn Gyntaf, yn aml yn cael atgyfeiriadau gan y gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn amlygu ymhellach y ffaith bod ymyriadau yn digwydd yn rhy hwyr pan fydd sefyllfa eisoes wedi gwaethygu.

Gwnaeth Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2021-2025 ymrwymiad i ddiogelu budd cenedlaethau'r dyfodol ac yn benodol i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n agored i niwed. Er mwyn gwneud hyn, mae angen ymrwymiad i nodi meysydd ar gyfer ymyrraeth gynharach, megis drwy'r system addysg neu drwy feddygon teulu a gofal iechyd ehangach. Rhaid cael cyllid priodol a gweithio ymrwymedig ar draws sectorau er mwyn i hyn fod yn effeithiol. Mae cydnabod a chefnogi anghenion penodol plentyn unigol ar y cyfle cyntaf, yn gosod cynsail bwysig i ddiogelwch a lles y plentyn fod wrth wraidd penderfyniadau. Mae cam-drin domestig yn rheswm cyffredin pam mae plant yn dod i mewn i'r system ofal, ac mae'n hanfodol bod ymyrraeth ac atal yn gallu digwydd cyn gynted â phosibl cyn cyrraedd pwynt argyfwng.

Blaenoriaeth 2: **Mwy o ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a hyfforddiant ar VAWDASV gan bob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd; yn ogystal â datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o VAWDASV ymhlith plant a phobl ifanc, mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran.**

Mae'r flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar wybodaeth gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd ac mae'n adlewyrchu hanfod y flaenoriaeth uchod. Mae WWA yn credu y bydd gwell dealltwriaeth o VAWDASV yn helpu gweithwyr proffesiynol i nodi'n gynharach pan fydd angen ymyrraeth a chymorth. Er mwyn i ymyrraeth gynnar ac atal lwyddo i leihau nifer y plant mewn gofal yn ddiogel, mae angen dealltwriaeth gymdeithasol a sector gyfan o VAWDASV a'r amrywiol ffyrdd y gallai amlygu ei hun. Mewn adroddiad, tynnodd AVA sylw at y ffaith bod diffyg gwybodaeth ar draws y system o ran cam-drin domestig a thrawma rhwng gweithwyr proffesiynol. Mae hyn wedi arwain at golli cyfleoedd lle byddai ymyrraeth gynnar wedi rhoi'r cymorth angenrheidiol i blant a phobl ifanc.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551
info@welshomensaid.org.uk | www.welshomensaid.org.uk

Welsh Women's Aid is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Mae Nodi ac Atgyfeirio i Gynyddu Diogelwch (IRIS) yn rhaglen hyfforddiant, cymorth ac atgyfeirio trais domestig i feddygon teulu sy'n caniatáu nodi'n gynnar ac atgyfeirio at gymorth priodol. Ariennir y rhain naill ai gan fyrddau iechyd lleol neu gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau. Amlygodd adroddiad a gyhoeddwyd yn 2022 fod 96% o ddefnyddwyr gwasanaeth IRIS yn teimlo'n fwy diogel ar ôl ymgysylltu â'r gwasanaeth nag o'r blaen. Byddai'r lefel hon o ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar draws yr holl weithwyr proffesiynol sy'n cwrdd â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn helpu i wella nodi VAWDASV a phryd fydd angen ymyrraeth o bosibl, cyn gynted â phosibl. Rydym ni'n credu bod yr ymwybyddiaeth o VAWDASV ac ymyrraeth gynnar yn gyfrifoldeb i bawb, a'r unig ffordd i gael gwared ar VAWDASV yn wirioneddol yw trwy ddull cymdeithas gyfan. I'r perwyl hwnnw, rhaid i bob sector weithio gyda'i gilydd i gadw goroeswyr yn ddiogel a'u cefnogi.

Pan fydd plentyn a'i fam yn bresennol mewn lloches, oherwydd ffoi rhag perygl uniongyrchol o niwed, maen nhw eisoes mewn argyfwng, i ailadrodd ein pwynt uchod, gallai ymyrraeth gynnar ac atal helpu i liniaru hyn. Felly, rydym ni'n credu ei bod yn hanfodol bod gweithwyr proffesiynol a fydd yn cwrdd â phlentyn a'u teulu drwy gydol eu hoes yn gallu nodi arwyddion o bryder neu lle gallai fod angen cymorth ac arweiniad pellach ar y teulu. Fe wnaeth **tystiolaeth** a gyflwynwyd i bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Llywodraeth Cymru a ddarparwyd gan Voices from Care Cymru amlygu bod llawer o blant a phobl ifanc yn teimlo fel pe bai ganddynt fwy o gymorth a chefnogaeth, yna gallent fod wedi gallu aros gyda'u teulu.

Mae WWA hefyd yn credu y dylai plant a phobl ifanc fod ag ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o VAWDASV a'r anghydraddoldeb rhwng y rhywiau sy'n arwain ato, mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran, ac rydym wedi cefnogi datblygiad cwricwlwm RSE Llywodraeth Cymru i ymgorffori hyn mewn addysg yng Nghymru. Yn ein hadroddiad '**Rwy'n ymddiried ynddyn nhw**', amlygodd ein harolwg fod y canfyddiad bod camdriniaeth yn cael ei phrofi yn normal yn rhwystr cyffredin i blant a phobl ifanc sy'n chwilio am gymorth. Mae hyn yn dangos sut mae VAWDASV wedi'i ymsefydlu a'i normaleiddio o fewn ein cymdeithas. Rhaid mynd i'r afael â hyn drwyddi draw ar bob lefel, ac mae gan sefydliadau - fel addysg - gyfle gwirioneddol i herio stereoteipiau niweidiol ar sail rhywedd, casineb at fenywod, a rhywiaeth ym meddyliau ifanc a'r genhedlaeth sydd i ddod, tra hefyd yn cyfeirio a llwybrau at gefnogaeth arbenigol i blant pan fo angen.

Cafodd yr angen hwn ei adleisio ymhellach mewn trafodaethau gyda'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS), a amlygodd, ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi tyfu i fyny mewn amgylchedd lle mae cam-drin domestig, efallai nad ydynt yn sylweddoli bod hyn yn broblemus neu efallai nad oedd ganddynt yr iaith i egluro beth oedd yn digwydd gartref. Amlygodd NYAS hefyd, ochr yn ochr ag ymwybyddiaeth o beth yw perthynas agos iach, eu bod yn credu ei bod yn bwysig i blant ddeall sut mae perthynas iach â rhieni yn edrych.

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn credu ei bod yn hanfodol i blant ddeall egwyddorion sylfaenol pob perthynas iach - megis parch, tosturi a ffiniau - p'un a yw'r perthnasau hyn yn rhamantus, platonig, teuluol ac

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551
info@welshomensaid.org.uk | www.welshomensaid.org.uk

Welsh Women's Aid is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

ati. Bydd hyn yn helpu i rymuso plant a phobl ifanc i nodi ymddygiadau o fewn eu perthnasoedd eu hunain sy'n teimlo'n afiach neu sy'n gamdriniol.

Blaenoriaeth 3: Ymrwymiad i leihau'r loteri cod post o ran darparu gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc drwy gomisiynu gwasanaethau cynaliadwy.

Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi ymgyrchu dros gyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol, ers blynyddoedd lawer. Mae tystiolaeth dda bod gwasanaethau arbenigol VAWDASV yn ei chael hi'n anodd ateb y galw cynyddol sydd wedi codi o ganlyniad i flynyddoedd o ffactorau economaidd-gymdeithasol croestoriadol fel llymder, Brexit, pandemig Covid-19 ac argyfwng costau byw. Fe wnaeth '[Dyletswydd i Gefnogi](#)' Cymorth i Ferched Cymru, a gomisiynwyd gan Joyce Watson AS, nodi 'loteri cod post' ar draws awdurdodau lleol ynghylch sut mae cyllid yn cael ei gategoreiddio a'i wario ar Wasanaethau Plant a Phobl Ifanc, gan arwain at rai plant a phobl ifanc yng Nghymru yn adrodd am effaith sylweddol ar eu gallu i wella ar ôl camdriniaeth. Mae'r adroddiad yn galw am ymchwiliad i gomisiynu a darparu gwasanaethau arbenigol yn ddigonol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) ledled Cymru.

Canfu'r adroddiad mai dim ond tri allan o 20 awdurdod lleol yng Nghymru a ymatebodd i gais Rhyddid Gwybodaeth sydd â Phwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc dynodedig i archwilio'r angen am gymorth arbenigol i blant a phobl ifanc.

Amlygodd '[Dyletswydd i Gefnogi](#)' mai dim ond nifer fach o blant a phobl ifanc o fewn gwasanaethau sy'n cael cymorth er bod tua un o bob pump o blant yn agored i gam-drin domestig. Mae hyn yn dangos nad yw pob plentyn a pherson ifanc yn cael y gefnogaeth maen nhw ei hangen mor ddybryd. Rydym yn croesawu bod Llywodraeth Cymru wedi cynnwys yr amcan bod gan bob dioddefwr fynediad cyfartal at wasanaethau ag adnoddau digonol yn Strategaeth VAWDASV 2022-25. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod yr amcan hwn yn cael ei wireddu ar gyfer plant a phobl ifanc, ac nid yn parhau i fod yn uchelgais i weithio tuag ato yn unig.

Ar hyn o bryd mae loteri cod post o ran darpariaeth gwasanaethau lle mae gan wahanol awdurdodau lleol flaenoriaethau gwahanol, ac o ganlyniad, nid yw ariannu gwasanaethau arbenigol plant a phobl ifanc yn cael lefel gyson o flaenoriaeth ledled Cymru. Realiti hyn yw efallai na fydd llawer o blant a phobl ifanc yn gallu cael eu cefnogi gan wasanaethau arbenigol mewn modd amserol, neu efallai y bydd ganddynt lai o opsiynau, oherwydd eu lleoliad daeryddol. Mae ein hadroddiad 'Rwy'n ymddiried ynddyn nhw' yn dweud wrthym nad yw plant a phobl ifanc hefyd yn manteisio ar gymorth oherwydd diffyg cyfeirio a bylchau yn y ddarpariaeth, sydd wedyn yn arwain at ddiffyg parhad a strwythur i gefnogaeth. Nid yw'n glir sut y gellir lleihau nifer y plant yn y system ofal yn ddiogel pan nad oes digon o ddarpariaeth cymorth ar gael i'r rhai sydd wedi dioddef trais a/neu gam-drin. Mae hyn yn croestorri â llawer o faterion a sectorau - fe wnaeth adroddiad diweddar amcangyfrif bod tua **5 o blant** ym mhob ystafell ddsbarth yn dioddef o broblem iechyd meddwl, fodd bynnag,

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551

info@welshomensaid.org.uk | www.welshomensaid.org.uk

Welsh Women's Aid is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

mae [data'n](#) dangos bod dros hanner y cleifion CAMHS wedi aros dros 4 wythnos am eu hapwyntiad cyntaf ym mis Gorffennaf 2022.

Rydym ni'n credu bod angen i ddiwygiad i'r gwasanaethau presennol ganolbwyntio ar sicrhau bod gwasanaethau arbenigol yn cael eu hariannu'n gynaliadwy, er mwyn darparu'r gefnogaeth bwysig a chyson mae plant a phobl ifanc ei hangen ac yn ei haeddu. Nid yw gwasanaethau sy'n llywio cyllid tymor byr o flwyddyn i flwyddyn yn caniatáu i blant a phobl ifanc fanteisio ar y cymorth sydd ei angen arnynt o'r dechrau i'r diwedd. Mae darparu cymorth penodol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac sy'n wybodus o ran trawma i blant a phobl ifanc, mor gynnar â phosibl, yn caniatáu i'r gwasanaethau arbenigol weithio gyda'u hanghenion.

2. Mewn gofal: Gwasanaethau a chymorth o safon i blant mewn gofal

Amlinellwch **uchafswm o dair** prif flaenoriaeth ar gyfer diwygio gwasanaethau i blant mewn gofal yn radical:

Blaenoriaeth 1: **Sicrhau gwell dealltwriaeth o VAWDASV a'r effaith mae hyn yn ei chael ar blant a phobl ifanc, a'r gydnabyddiaeth bod plant yn oroeswyr yn eu rhinwedd eu hunain.**

Tra mae plant a phobl ifanc mewn gofal, credwn fod angen i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw ddeall deinameg wahanol VAWDASV. Gall plant mewn gofal fod wedi profi, byw gyda neu fod wedi bod yn dyst i fyrrdd o gamdriniaeth wahanol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gam-drin domestig, cam-drin rhywiol neu reolaeth gymhellol. Dylid **nodi** hefyd, ochr yn ochr â cham-drin domestig, y gallai nifer fawr o blant fod yn byw gyda rhieni sydd hefyd yn wynebu afiechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau. Mae plant yn ymateb yn wahanol i fyw gyda cham-drin domestig, a gall trawma gyflwyno mewn amrywiaeth eang o ffyrdd, fe wnaeth **CAFCASS Cymru** ganfod y gallai rhai plant brofi gwlychu'r gwely ac aflonyddwch cwsg tra bod eraill yn hunan-niweidio ac ymddwyn yn wrthgymdeithasol. Mae'n bwysig i'r rhai sy'n gweithio gyda phlant mewn gofal gydnabod y gall trawma o brofi cam-drin, byw gyda neu weld cam-drin amlygu mewn nifer o wahanol ffyrdd, ar wahanol gyfnodau o fywyd plentyn. Rhaid mynd i'r afael â'r trawma hwn mewn ffordd nad yw'n ei waethygu ymhellach, sy'n cynnwys peidio â stigmatiddio na stereoteipio plant a'u profiadau.

Mae'n hanfodol bod pob gweithiwr proffesiynol yn cydnabod bod plant yn oroeswyr yn eu rhinwedd eu hunain. Fe wnaeth Deddf **VAWDASV (Cymru) 2015** egluro y gall plant fod yn destun VAWDASV, tra bod Deddf Cam-drin Domestig 2021 yn nodi ymhellach bod plant yn ddiodefwr cam-drin domestig yn eu rhinwedd eu hunain. Mae'n hanfodol bod gan weithwyr proffesiynol y ddealltwriaeth hon a'u bod yn eu hanfod yn ystyried plant fel goroeswyr, er mwyn symud y naratif nad ydynt yn wylwr yn y sefyllfa ond eu bod nhw'n cael eu heffeithio'n sylweddol gan y profiad o fyw gyda cham-drin.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551

info@welshomensaid.org.uk | www.welshomensaid.org.uk

Welsh Women's Aid is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Gan y gall effaith VAWDASV amlygu ar unrhyw adeg ar unrhyw ffurf, mae'n hanfodol nad yw plant yn cael eu brandio fel rhai sy'n 'chwarae fyny' neu na ellir eu rheoli. Wrth ymgynghori â NYAS, amlygwyd y bydd pob plentyn sydd mewn gofal yn delio â thrawma i ryw raddau. Mae cael eich tynnu oddi wrth eich teulu a chael eich rhoi o fewn y system ofal yn broses drawmatig, ond gall symud ysgolion, dod o hyd i gyfoedion newydd a mynychu cyfarfodydd waethygu trawma ymhellach. Mae'n hanfodol bod gweithwyr proffesiynol yn deall, er bod y plentyn yn cael ei symud o'r cartref ac yn cael ei ystyried yn ddiogel wedyn, nid yw'n golygu na ellir ei ail-drawmateiddio na'i drawmateiddio ymhellach. Rhaid darparu cefnogaeth i blant a phobl ifanc gyda'r gydnabyddiaeth bod trawma yn wahanol i bawb.

Dylai cydnabod bod plentyn yn oroeswr ynddo'i hun ddod gyda'r ddealltwriaeth y gall fod yn agored i niwed, a gallai lefelau eu gwydnwch fod yn wahanol. Fe wnaeth [Arolygiaeth Gofal Cymru](#) ganfod bod nifer cynyddol o blant yn mynd ar goll o ofal a bod risg uwch o gamfanteisio rhywiol. Mae ein gwasanaethau arbenigol wedi nodi ymhellach bod y rhai sydd wedi bod mewn gofal, neu sydd mewn gofal, mewn perygl o brofi camfanteisio'n rhywiol yn ystod plentyndod. Os nad yw hyn yn cael ei gydnabod yn briodol ac nad yw unigolion yn cael y gefnogaeth gywir, mae pryderon y gallai'r plentyn barhau i brofi camfanteisio drwy gydol oedolaeth. Mae'n hanfodol bod dealltwriaeth y gall gwendidau aros gyda'r plentyn i mewn i'w flynyddoedd fel oedolyn. Rydym ni'n credu ei bod yn hanfodol bod pob gweithiwr proffesiynol yn deall eu profiadau o gam-drin a chymhlethdodau eu trawma, pan fydd plentyn yn dod i mewn i'r system ofal, er mwyn atal niwed pellach.

Blaenoriaeth 2: [Gwell dealltwriaeth o bwysigrwydd bod yn wybodus am drawma, yn seiliedig ar anghenion ac yn seiliedig ar gryfderau gan bob gweithiwr proffesiynol a gofalwr maeth sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.](#)

[Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc \(Cymru\) 2011](#) yn rhoi dyletswyddau i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae [Erthygl 3](#) o'r confensiwn yn nodi y dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant bob amser wneud yr hyn sydd orau i bob plentyn ac mae [Erthygl 20](#) yn nodi y dylech chi gael y gofal iawn iawn os na allwch chi fyw gyda'ch teulu eich hun. Mae'n hanfodol y dylai'r hyn sydd orau i bob plentyn gyfrif am gefnogaeth briodol i wella ar ôl trawma. Amlygodd canfyddiadau o grŵp ffocws a gynhaliwyd gan WWA gan y rhai sydd â phrofiad byw o'r system ofal, fod diffyg sylweddol o ymarfer sy'n wybodus o drawma ymhlith gweithwyr proffesiynol, a arweiniodd at waethygu trawma pellach. Fel y dywedwyd wrthym o fewn y grŵp ffocws; *“mae pobl yn anghofio am y trawma, dydyn ni ddim yn cael unrhyw fath o ymyrraeth”*.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551
info@welshomensaid.org.uk | www.welshomensaid.org.uk

Welsh Women's Aid is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Pan fydd plant mewn gofal, mae angen eu cefnogi i ffynnu ac i wella o'r trawma maen nhw wedi'i brofi. Fel y gwelir gan [Voices From Care Cymru](#), mae angen deall bod cael eich rhoi mewn gofal yn drawmatig. Felly, mae'n hanfodol bod yr amser mewn gofal yn cael ei dreulio yn meithrin perthnasoedd â gweithwyr proffesiynol, manteisio ar gymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn canolbwyntio ar gael gwared ar unrhyw rwystrau i wella a ffynnu y gallai'r plentyn eu hwynebu. Mae hefyd wedi cael ei nodi gan wasanaethau aelodau arbenigol, fel sydd wedi cael sylw yn y blaenoriaethau uchod, mae'r broses o fynd i mewn i ofal, yn gallu cynyddu gwendidau plant ac mae'r system ofal yn aml yn gadael plant yn agored i drawma pellach; gall hyn gynnwys camddefnyddio sylweddau neu risg o gamfanteisio rhywiol. Rhaid i unrhyw ymyrraeth neu gymorth a ddarperir ar gyfer y plentyn fod yn seiliedig ar ei anghenion ac nid dim ond yr hyn sydd ar gael ar yr adeg honno. Mae'n hanfodol nad yw'r cymorth a ddarperir yn eu rhoi o dan anfantais bellach, ond ei fod yn gweithio gyda'u cryfderau personol i gynyddu gwydnwch.

Felly, mae'n hanfodol bod pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn deall pwysigrwydd bod yn wybodus am drawma, cael eu harwain gan anghenion ac yn seiliedig ar gryfder. Mae'r ddealltwriaeth nad yw trawma yn llinol a'i fod yn effeithio ar bob plentyn yn wahanol yn hanfodol. Rhaid cael ymwybyddiaeth benodol o weithio gyda phlant mewn ffordd groestoriadol. Mae plant, fel pob unigolyn, yn dri dimensiwn a bydd ganddynt lawer o anghenion, rhaid i weithwyr proffesiynol ddeall cymhlethdod pob plentyn. Mewn trafodaeth gyda NYAS, amlygwyd bod gwasanaethau sy'n cefnogi iechyd meddwl yn flaenoriaeth uchel i'r rhai sydd o fewn y system ofal. Mae'r rhai y gwnaethom ni ymgynghori â nhw yn credu y dylai cymorth iechyd meddwl fod ar gael i bob plentyn sy'n dod i'r system ofal a bod y cymorth hwn ar gael drwy gydol yr amser maen nhw mewn gofal ac ar ôl gofal.

Tynnodd NYAS sylw hefyd at y ffaith bod llawer o blant yn aml yn cael eu symud rhwng lleoliadau, oherwydd eu bod yn cael eu labelu fel rhai na ellir eu rheoli neu'n hai anodd, ond ychydig sy'n cael ei wneud yn aml i ddeall llwybr anghysur ac ymddygiad y plentyn. Mae [Ystadegau Ymchwil y Senedd](#) yn dangos bod tua 26% o blant â phrofiad gofal wedi cael dau leoliad neu fwy yn y 12 mis blaenorol. Gallai natur ansefydlog ac ansicr y lleoliadau lluosog hyn waethygu trawma plentyn ymhellach. Os nad yw plant yn cael y gefnogaeth maen nhw ei hangen neu amgylchedd cyson, maen nhw'n wynebu rhwystrau ychwanegol i adferiad ac effaith hirdymor bosibl ar eu hiechyd a'u lles.

Mae'n hanfodol bod pob gweithiwr proffesiynol a gofalwr maeth sy'n ymgysylltu â phlant yn cael hyfforddiant penodol a rheolaidd ar drawma, a mae dull sy'n seiliedig ar drawma yn edrych. Mae'n hanfodol bod hyn yn groestoriadol ac yn mynd i'r afael â gweithio gyda phlant sy'n profi anfanteision lluosog.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551
info@welshomensaid.org.uk | www.welshomensaid.org.uk

Welsh Women's Aid is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Blaenoriaeth 3: Rhoi llais i blant a phobl ifanc mewn gofal ac oedolion â phrofiad gofal, er mwyn sicrhau bod systemau'n cael eu harwain ganddynt fel arbenigwyr yn ôl eu profiad eu hunain.

Mae'n bwysig bod yr unigolion hynny mewn gofal yn gallu arwain a pherchenogi'r amser maen nhw'n ei dreulio o fewn y system, gan gynnwys ymwneud yn ystyrlon â faint o gymorth a pha fath o gymorth maen nhw'n ei dderbyn. Mae plant o fewn y system ofal yn arbenigwyr yn ôl profiad a dylid trin eu cyfraniad i'r ffordd maen nhw'n cael eu cefnogi gyda'r parch mwyaf. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i weithio gyda phlant yn y system ofal i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed wrth ddatblygu gwasanaethau a chymorth o safon, ac er mwyn nodi'r systemau a'r arferion hynny sy'n brin ac sydd angen eu gwella.

Dylid hefyd ymgynghori ag oedolion â phrofiad gofal yn barhaus yn ystod ac ar ôl diwygio gwasanaethau gofal. Mae'n hanfodol eu bod nhw'n gallu effeithio ar ddarpariaeth gofal gyda'u profiad byw gwerthfawr.

3. Ar ôl gofal: Cefnogaeth barhaus pan fydd pobl ifanc yn gadael gofal

Amlinellwch **uchafswm o dair** prif flaenoriaeth ar gyfer diwygio'r cymorth parhaus a ddarperir pan fydd pobl ifanc yn gadael gofal yn radical:

Blaenoriaeth 1: **Parhad a sefydlogrwydd rhwng trosglwyddo gwasanaethau a chymorth plant i oedolion.**

Fel ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n agored i niwed, mae'n hanfodol nad yw cymorth a mynediad at wasanaethau yn dod i ben pan fydd person ifanc yn gadael y system ofal. Er bod person ifanc yn trawsnewid ac yna'n dechrau cyfnod newydd o'i fywyd, nid yw hyn yn cyfateb i adferiad llawn o drawma neu angen sydd wedi lleihau'n sydyn i gael mynediad at gefnogaeth a oedd yn adeiladu gwydnwch ac yn grymuso.

Nid yw trawma yn llinol a gall amlygu mewn gwahanol ffyrdd ac ar wahanol adegau mewn bywyd. Mae plant a phobl ifanc eisoes yn wynebu loteri cod post o ran darpariaeth gwasanaeth; felly, mae'n hanfodol bod cymorth maen nhw'n ei dderbyn o dan wasanaethau plant a phobl ifanc, yn trosglwyddo'n ddidrafferth i wasanaethau oedolion.

I ailadrodd pwyntiau cynharach, mae plant sy'n ymuno â'r system ofal yn aml yn agored i niwed a gall y system ynddo'i hun waethygu'r gwendidau hynny. Mae gwasanaethau VAWDASV arbenigol wedi nodi bod plant sydd wedi bod yn y system ofal yn fwy agored i niwed o ran camfanteisio'n rhywiol. WWA yw ysgrifenyddiaeth

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551

info@welshomensaid.org.uk | www.welshomensaid.org.uk

Welsh Women's Aid is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Grŵp Gweithredol Cymru Gyfan ar Fenywod sy'n Profi Camfanteisio'n Rhywiol, ac mae'r grŵp wedi pwysleisio dro ar ôl tro bwysigrwydd cynlluniau cymorth trosiannol ar gyfer y rhai sydd wedi dioddef camfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae'n hanfodol bod eu cefnogaeth yn parhau wrth iddynt ddatblyg i fod yn oedolion er mwyn atal camfanteisio'n rhywiol, neu unrhyw fath arall o VAWDASV.

Blaenoriaeth 2: Dull sy'n seiliedig ar gryfderau, lle mae pobl sy'n gadael gofal yn cael eu cefnogi a'u grymuso i fod yn gyfrifol am eu bywyd.

Ychydig iawn o ddata sydd wedi'i gyhoeddi ar fywydau plant sydd â phrofiad o ofal, unwaith y byddant wedi gadael y system ofal. Awgrymwyd bod **plant mewn gofal** mewn mwy o berygl o ryngweithio â'r system cyfiawnder troseddol pan fyddant yn oedolion ifanc, a bod ganddynt gyfraddau cyrhaeddiad addysgol is yng nghyfnod allweddol 2 a 4. Mae pryderon nad yw plant mewn gofal yn dysgu'r sgiliau er mwyn ffynnu a chymryd gofal o'u bywyd, pan fyddant yn gadael gofal. Mae **tystiolaeth gan Voices From Care** Cymru yn amlygu ymhellach nad yw plant yn cael digon o gefnogaeth pan fyddant yn gadael gofal, a all arwain at gymryd rhan mewn gweithgareddau anghyfreithlon er mwyn teimlo'n rhan o 'gymuned'.

Efallai y bydd rhai pobl ifanc sydd wedi llywio'r system ofal yn profi trawma am amser hir. Rydym ni'n gwybod y gall trawma unrhyw berson sydd wedi goroesi VAWDASV fod yn gymhleth ac yn eang, a gellir ei sbarduno trwy gydol eu hoes. Pan fydd y pwyntiau heriol hyn mewn bywyd yn digwydd, mae'n hanfodol bod unigolion yn deall pa wasanaethau cymorth sydd ar gael iddyn nhw a sut i fanteisio arnyn nhw, neu, eu bod yn gallu parhau â'r gwasanaethau cymorth tebyg i'r hyn yr ganddynt pan oedden nhw mewn gofal.

Gall y dull hwn sy'n seiliedig ar gryfderau o sicrhau bod pobl ifanc yn teimlo eu bod yn barod i lywio bywyd, alluogi annibyniaeth a pherchnogaeth o gyfeiriad bywyd.

Blaenoriaeth 3:

Amh.

4. Unrhyw beth arall

Oes gennych chi unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym?

Amh.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551
info@welshomensaid.org.uk | www.welshomensaid.org.uk

Welsh Women's Aid is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469



Llywodraeth Cymru
Welsh Government